Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Hawl i ofal plant yn y blynyddoedd cynnar
## Cwestiynau Cyffredin

Ionawr 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X (Twitter): **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Hawl i ofal plant yn y blynyddoedd cynnar

## Cwestiynau Cyffredin

Ionawr 2024

**Awduron:**
Isabel Lang a Sian Thomas

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Isabel Lang gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Mae'r papur hwn crynhoi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru ac yn cyfeirio at ragor o ffynonellau gwybodaeth

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gwybodaeth mewn ymateb i rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. **Ni fwriedir iddi fod yn ffynhonnell gyngor nac yn ganllaw cynhwysfawr ar yr hawl i ofal plant yn y blynyddoedd cyn ar.**

Mae gan bob awdurdod lleol **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** sy'n darparu gwybodaeth a chyngor diduedd a di-dâl i bob rhiant a gofalwr.

# Cynnwys

**1. Amrywiaeth o hawliau i ofal plant yn y blynyddoedd cynnar ........ 1**

**2. Darpariaeth yng Nghymru ........ 2**

**3. Cymorth gofal plant Llywodraeth y DU ........ 4**

**4. Cymorth gofal plant i fyfyrwyr ........ 5**

**5. Ffynonellau cyngor a gwybodaeth ........ 6**

**6. Hawliau gwahanol yng Nghymru a Lloegr ........ 7**

**7. Ymrwymiadau gofal plant Llywodraeth Cymru ........ 13**

# 1. Amrywiaeth o hawliau i ofal plant yn y blynyddoedd cynnar

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cymorth gofal plant sy'n cael ei gynnig yng Nghymru ar hyn o bryd, gan ddibynnu ar gymhwystra. Mae'n cynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru, Dechrau'n Deg ac 'addysg y blynyddoedd cynnar'. Mewn ymateb i ymholiadau sy'n dod i law, mae'r ddogfen yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y sefyllfa yn Lloegr hefyd.

Mae rhai teuluoedd yn derbyn gofal plant di-dâl sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei weinyddu a'i ddarparu drwy'r awdurdod lleol mewn llawer o achosion.

Nod y gwahanol fathau o ddarpariaeth ddi-dâl neu ddarpariaeth â chymhorthdal yw cefnogi cyflogaeth rhieni a chanlyniadau economaidd. Yn wreiddiol, roedd mathau eraill o ddarpariaeth ddi-dâl, fel Dechrau'n Deg, yn canolbwyntio ar gefnogi anghenion datblygiadol plant.

Mae **Briff Ymchwil y Senedd** 2019 hwn ar y blynyddoedd cynnar, plentyndod a gofal yn nodi bod 'amrywiad sylweddol' mewn gofal plant yng Nghymru, ac y gall mynediad at gyllid gofal plant ddibynnu ar ffactorau fel:

- Incwm,
- statws cyflogaeth,
- amgylchiadau economaidd,
- oedran y plentyn,
- lle mae teuluoedd yn byw,
- pa wasanaethau sy'n hygyrch,
- statws priodasol neu bartneriaeth.

# 2. Darpariaeth yng Nghymru

### Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae **Cynnig Gofal Plant Cymru yn** darparu **hawl** i 30 awr yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn i blant rhai rhieni sy'n gweithio a rhai rhieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant. Mae'r ddarpariaeth 30 awr yr wythnos yn cynnwys:

- o leiaf 10 awr o addysg y blynyddoedd cynnar (gweler isod); a
- hyd at 20 awr o ofal plant.

Gan ddibynnu ar y darparwyr, gall rhieni ddefnyddio oriau gofal plant a ariennir ar unrhyw adeg yn ystod wythnosau gwyliau, ddydd neu nos, gan gynnwys ar benwythnosau.

### Deg awr o addysg y blynyddoedd cynnar

Mae gan bob awdurdod lleol **ddyletswydd gyfreithiol** i gynnig a darparu addysg feithrin ddigonol yn ddi-dâl ar gyfer pob plentyn yn ei ardal gan ddechrau yn y tymor cyntaf ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed hyd at fis Medi ar ôl i'r plentyn droi'n bedair oed. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gynnig o leiaf 10 awr am 39 wythnos ar gyfer pob plentyn, waeth beth fo statws cyflogaeth ei rieni. Os oes gan blant hawl i'r Cynnig Gofal Plant (gweler uchod) ychwanegir at yr hawl hon yn y blynyddoedd cynnar i ddarparu 30 awr.

### Dechrau'n Deg

Rhaglen y blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru yw **Dechrau'n Deg** sy'n cael ei darparu mewn ardaloedd sydd wedi'u hasesu fel y rhai mwyaf difreintiedig:

- Mae'n cael ei darparu gan awdurdodau lleol mewn ardaloedd daearyddol targed, yr amcangyfrifir bod ganddynt y nifer fwyaf o blant 0-3 oed sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.
- Mae rhywfaint o hyblygrwydd cyfyngedig i ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg i deuluoedd y tu allan i'r ardaloedd hyn, ond penderfyniad yr awdurdodau lleol yw hyn yn unol ag **Allgymorth Dechrau'n Deg: canllawiau i awdurdodau lleol**.
- Yn ei **Chytundeb Cydweithio** gyda Phlaid Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ymestyn Dechrau'n Deg er mwyn ehangu'n raddol y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn 2 oed.

Mae pedair elfen gyflawni graidd gan y rhaglen **Dechrau'n Deg**:

- Gofal plant Dechrau'n Deg: gofal plant rhan-amser a ariennir ar gyfer plant 2–3 oed (12.5 awr o ofal plant di-dâl ar gyfer plant 2-3 oed, am 39 wythnos o'r flwyddyn).
- Gwell gwasanaeth ymweliadau iechyd
- Mynediad at gymorth magu plant.
- Cefnogaeth ar gyfer datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu.

# 3. Cymorth gofal plant Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn darparu rhywfaint o gymorth ariannol sydd ar gael i rieni yng Nghymru.

| Y cymorth gofal plant a gynigir | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|
| **Cynllun gofal plant sy'n rhydd o dreth** | ▪ Mae **Gofal Plant sy'n rhydd o Dreth** yn darparu cymorth ar gyfer cost gofal plant.<br>▪ O dan y cynllun Gofal Plant sy'n rhydd o Dreth (TFC), mae rhiant neu ofalwr yn talu arian ar gyfer gofal plant i gyfrif TFC. Yna bydd y Llywodraeth yn ychwanegu £2 at bob £8 sy'n cael ei thalu i'r cyfrif, hyd at uchafswm o £2,000 y plentyn, y flwyddyn (neu £4,000 y flwyddyn ar gyfer plentyn anabl).<br>▪ Gall rhieni ddefnyddio TFC ar yr un pryd â defnyddio 30 neu 15 awr o hawliau gofal plant di-dâl yng Nghymru a Lloegr yn y drefn honno.<br>▪ Yna gellir defnyddio arian yn y cyfrif TFC i dalu am **ofal plant cymeradwy** ar gyfer unrhyw blentyn o dan 12 oed, neu o dan 17 oed os yw'n anabl.<br>▪ Fel arfer, mae'n rhaid i riant/gofalwr a'u partner, os oes ganddynt bartner, ennill o leiaf **Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw** am 16 awr yr wythnos i fod yn gymwys ar gyfer y TFC.<br>▪ Ewch i **GOV.UK** i weld a ydych chi'n gymwys ar gyfer y TFC.<br>Mae rhai o'r **meini prawf cymhwystra ar gyfer Gofal Plant sy'n rhydd o Dreth** yn cynnwys:<br>▪ **Ennill £167 yr wythnos ar gyfartaledd** (sy'n cyfateb i 16 awr o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw) dros dri mis,<br>▪ Pobl nad ydynt yn derbyn Credydau Treth, Credyd Cynhwysol na thalebau gofal plant,<br>▪ Pobl sydd â phlant 0-11 oed (neu 0-16 oed os ydynt yn anabl). |

| | |
|---|---|
| **Credyd Cynhwysol i dalu costau gofal** | ▪ Mae rhieni / gofalwyr sy'n hawlio credyd cynhwysol nad ydynt yn defnyddio'r cynllun Gofal Plant sy'n rhydd o Dreth yn gallu **hawlio hyd at 85% o gostau gofal plant** i'w talu gan eu Credyd Cynhwysol.<br>▪ Ewch i **GOV.UK** i weld a ydych chi'n gymwys ar gyfer Credyd Cynhwysol. |
| **Cronfa Cymorth Hyblyg ar gyfer rhieni sy'n gweithio** | Gall teuluoedd/rhieni/gofalwyr sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac sy'n dechrau gweithio neu'n cynyddu eu horiau gwaith dderbyn cymorth gan y **Gronfa Gymorth Hyblyg**, sy'n cynnig cymorth i bobl na allant dalu costau gofal plant ymlaen llaw. |

# 4. Cymorth gofal plant i fyfyrwyr

Mae rhai myfyrwyr yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru. Gan ddibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw, mae'n bosibl y bydd plant y myfyriwr yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg hefyd. Yn ogystal, efallai y bydd ffynonellau cymorth eraill ar gael fel y nodir isod.

**Myfyrwyr mewn addysg uwch (AU)**

- Cronfeydd caledi perthnasol y Brifysgol neu'r **Gronfa Ariannol Wrth Gefn**,
- Y **Lwfans Dysgu Rhieni** ar gyfer myfyrwyr llawn amser cymwys yng Nghymru,
- Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr israddedig llawn amser sydd â phlant o dan 15 oed, neu o dan 17 oed os oes gan y plentyn anghenion addysgol arbennig, yn gymwys ar gyfer y **Grant Gofal Plant** tuag at eu costau gofal plant.
- Efallai y bydd myfyrwyr sydd â phlant neu oedolion dibynnol yn gallu gwneud cais am Lwfans Oedolion Dibynnol neu **Lwfans Gofal Plant**.
- Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr sy'n derbyn Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn gymwys ar gyfer **Grant Gofal Plant a lwfansau ychwanegol tuag at gostau astudio**.

**Myfyrwyr addysg bellach (AB):**

Mae gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer **myfyrwyr Addysg Bellach (AB) yng Nghymru** yn datgan: "Mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael cymorth i dalu costau gofal plant wrth i chi astudio. Cysylltwch â'ch ysgol neu goleg lleol i gael rhagor o wybodaeth."

### Myfyrwyr a budd-daliadau

- Nid yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr llawn amser yn gymwys i hawlio Credyd Cynhwysol, ond **mae rhai eithriadau i hyn, gan gynnwys myfyrwyr sy'n gyfrifol am blentyn**.
- Mae'r Credyd Cynhwysol yn cynnwys **elfen costau gofal plant**, ond ni fydd llawer o fyfyrwyr sy'n gallu hawlio Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael ad-daliad ar gyfer costau gofal plant. Y rheswm am hyn yw bod elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol ddim ond yn cynnwys gofal plant sy'n caniatáu i'r sawl sy'n ei hawlio ymgymryd â gwaith am dâl (ar gyfer cyplau, mae'n rhaid bod y ddau bartner yn gwneud gwaith am dâl fel arfer).
- Dylai myfyrwyr sydd am wybod a oes ganddynt hawl i fudd-daliadau ofyn am gyngor proffesiynol ar hawliau lles. Gellir dod o hyd i gynghorwyr ar hawliau lles trwy ddefnyddio'r **adnodd darganfod cod post ar wefan Advice Loca**l.

# 5. Ffynonellau cyngor a gwybodaeth

Mae gan bob awdurdod lleol **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** sy'n darparu cyngor di-dâl ar ofal plant. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i rieni a gofalwyr gysylltu â'u **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** i gael gwybod am y ddarpariaeth sydd ar gael yn eu hawdurdod lleol a derbyn cyngor ar gymhwystra ar gyfer darpariaeth ddi-dâl.

Mae **cyfrifiannell gofal plant** Llywodraeth y DU yn adnodd syml sy'n helpu rhieni i ddysgu mwy am y cymorth posibl sydd ar gael i dalu costau gofal plant. Bydd angen gwybodaeth ar rieni amdanyn nhw a'u partner (os oes ganddynt un), gan gynnwys:

- faint maen nhw'n ei wario ar ofal plant;
- unrhyw fudd-daliadau y maen nhw neu eu plentyn yn eu derbyn;
- eu hincwm.

Mae ffynonellau gwybodaeth eraill yn cynnwys:

- **Y cymorth sydd ar gael i dalu costau gofal plant - GOV.UK**
- **Cymorth arall gyda thalu am ofal plant**
- **Budd-daliadau a chymorth ariannol i deuluoedd**
- **Tudalen we** Llywodraeth y DU ar gyfer cymorth ariannol os oes gennych chi blant.

- Mae'r **Gwasanaeth Arian a Phensiynau** yn darparu rhagor o gyngor i rieni ar y **wefan** hon.

# 6. Hawliau gwahanol yng Nghymru a Lloegr

Mae **cynigion gofal plant di-dâl gwahanol ar gael** yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, mae systemau rheoleiddio ac arolygu gwahanol ar gyfer gofal plant ar waith yng Nghymru a Lloegr.

Yn aml, mae **cymariaethau yn cael eu gwneud** rhwng y cynigion gofal plant di-dâl yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cymariaethau hyn wedi cynyddu yn **dilyn ymrwymiad gan Lywodraeth y DU** yn gynharach yn 2023 i ddarparu gofal plant di-dâl i blant rhieni cymwys sy'n gweithio o naw mis oed ymlaen erbyn 2025.

Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog wedi **gwrthod y gymhariaeth hon**, gan ddweud: "...mai'r hyn yr ydym ni'n ei weld yw ymgais yn Lloegr i ddal i fyny â gwasanaethau sydd eisoes ar gael yma yng Nghymru. Yn sicr nid yw'r ffordd arall."

**Crynodeb o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a Lloegr**

**Rhieni sydd â phlant dwy oed**

**Cymru:** bydd gan rieni cymwys hawl i gael **12.5 awr o ofal plant bob wythnos** am 39 wythnos y flwyddyn i **blant dwy a thair oed (Dechrau'n Deg) ac mae yr hawl yn cael ei ehangu.**

**Lloegr:** bydd gan rieni cymwys sy'n gweithio hawl i gael **15 awr o ofal plant bob wythnos** am **38 wythnos y flwyddyn i blant dwy oed.**

**Pob plentyn tair a phedair oed**

**Cymru:** hawl i o leiaf **10 awr** o addysg gynnar **bob wythnos,** ond mae llawer yn cynnig mwy.

**Lloegr:** hawl i oddeutu **15 awr yr wythnos** am 38 wythnos (hyd at 570 awr y flwyddyn i'w defnyddio'n hyblyg gydag un darparwr neu ragor. Bydd rhai darparwyr yn caniatáu i rieni ymestyn yr oriau dros 52 wythnos gan ddefnyddio llai o oriau bob wyth-

**Rhieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed**

**Cymru:** hawl i **30 awr yr wythnos** am 48 wythnos y flwyddyn (Cynnig Gofal Plant Cymru). Bydd hyn yn cynnwys 10 awr o addysg gynnar ac 20 awr o ofal plant.

**Lloegr:** hawl i **30 awr** yr wythnos am **38 wythnos** y flwyddyn.

### Darpariaeth bresennol ar gyfer plant 2 a 3 oed rhieni cymwys

| | Cymru | Lloegr |
|---|---|---|
| **Cynigir gan:** | **Dechrau'n Deg** yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar. | Gall plant 2 oed yn Lloegr gael **gofal plant di-dâl** os ydynt yn derbyn budd-daliadau penodol neu'n byw mewn amgylchiadau penodol. |
| **Poblogaeth darged:** | Pob plentyn 2 a 3 oed sy'n byw mewn **ardaloedd Dechrau'n Deg**. | **Plant 2 oed** rhieni cymwys ar incwm isel. |
| **Y cymorth a gynigir:** | Mae gofal plant Dechrau'n Deg ar gael am 12.5 awr yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth gofal plant ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. | Hawl i **15 awr yr wythnos**, 38 wythnos y flwyddyn. |
| **Meini prawf cymhwystra:** | Mae **Dechrau'n Deg** yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu i ardaloedd ar sail mesurau amddifadedd cymharol gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. | Ar gael i rieni sy'n derbyn rhai **budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm**. Mae rhai plant 2 oed eraill yn gymwys hefyd, er enghraifft os oes ganddynt gynllun Addysg, Iechyd a Gofal, yn derbyn lwfans byw i'r anabl, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, neu wedi gadael gofal o dan orchymyn mabwysiadu, gwarcheidiaeth arbennig, neu orchymyn trefniadau plant. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:** | Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn canolbwyntio ar **gam nesaf ehangu** darpariaeth Dechrau'n Deg y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed yn y pen draw, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | O fis Ebrill 2024, y nod yw ymestyn y ddarpariaeth hon i holl rieni plant 2 oed yn Lloegr. |

**Y ddarpariaeth bresennol ar gyfer pob plentyn 3 a 4 oed**

| | Cymru | Lloegr |
|---|---|---|
| **Poblogaeth darged:** | **Pob plentyn 3 a 4 oed** o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed nes eu bod yn dechrau addysg yn llawn amser. | **Pob plentyn 3-4 oed a phlant 2 oed sydd dan anfantais cymwys** |
| **Y cymorth a gynigir:** | Hawl i **o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar** (a elwir hefyd yn ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen). Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig mwy. | Hawl i **570 awr** o addysg gynnar neu ofal plant di-dâl y flwyddyn. Yn aml, mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei hawlio ar ffurf 15 awr yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. |
| **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:** | Mae cynlluniau yng Nghymru yn canolbwyntio ar bob plentyn dwy oed fel y manylir yn y tabl uchod. | O fis Ebrill 2024 ymlaen, bydd rhieni sy'n gweithio sydd â phlant 2 oed yn gallu cael hyd at 15 awr o ofal plant di-dâl yr wythnos. O fis Medi 2024 ymlaen, y bwriad yw ymestyn y trefniant hwn i rieni sy'n gweithio sydd â phlant rhwng 9 mis a 2 oed (cyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn ei **Chyllideb y Gwanwyn 2023**. |

## Y ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant 3 a 4 oed rhieni cymwys

| | Cymru | Lloegr |
|---|---|---|
| **Cynigir gan:** | Llywodraeth Cymru, **Cynnig Gofal Plant Cymru**. | Cynllun **Gofal Plant Di-dâl** ar gyfer plant cymwys yn Lloegr. |
| **Poblogaeth darged:** | Plant 3 a 4 oed **rhieni cymwys**. | Plant 3 a 4 oed **rhieni cymwys**. |
| **Y cymorth a gynigir:** | Hawl i 30 awr yr wythnos o **ofal plant** am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys hyd at 20 awr o ofal plant ac o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar. | Hawl i 30 awr yr wythnos o ofal plant di-dâl, am **38 wythnos y flwyddyn** (yn ystod y tymor ysgol). |
| **Meini prawf cymhwystra:** | ▪ Yn byw yng Nghymru,<br>▪ Oedran y plentyn,<br>▪ Rhaid i incwm gros pob rhiant fod yn £100,000 neu'n llai y flwyddyn.<br>Yn ogystal, rhaid bodloni un o'r canlynol:<br>▪ Yn gyflogedig ac yn ennill o leiaf (ar gyfartaledd) swm sy'n cyfateb i weithio 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw<br>▪ Yn derbyn Tâl Statudol ac Absenoldeb (Salwch, Mamolaeth, Tadolaeth, Rhiant, Profedigaeth neu Absenoldeb Mabwysiadu), | ▪ Yn byw yn Lloegr,<br>▪ Oedran y plentyn,<br>▪ Os ydych yn gweithio (yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, neu'r ddau) ac yn ennill o leiaf (ar gyfartaledd) swm sy'n cyfateb i weithio 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw (gyda disgwyliad i ennill o leiaf tua £1,098-£2,167 dros y 3 mis nesaf gan ddibynnu ar eich oedran),<br>▪ Eich incwm (ac os oes gennych bartner, incwm eich partner), |

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ Wedi ymrestru ar gwrs addysg bellach neu addysg uwch sydd o leiaf 10 wythnos o hyd (gwnaeth ymrwymiad **Cytundeb Cydweithio** 2021 ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys y grwpiau hyn hefyd).<br>Os oes gennych bartner sy'n byw gyda chi, rhaid iddo/iddi fodloni un o'r meini prawf cyflogaeth neu addysg hyn hefyd. | ▪ Amgylchiadau eich plentyn (ni fyddwch yn gymwys os nad yw eich plentyn yn byw gyda chi fel arfer),<br>▪ Eich statws mewnfudo<br>O fis Medi 2025 ymlaen, y nod yw ymestyn yr hawl i 30 awr yn raddol i gynnwys plant 9 mis oed hyd at 3 oed (a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn ei **Chyllideb y Gwanwyn 2023**. |

### Cynlluniau ehangu yn y ddwy wlad

Mae gan y ddwy wlad rywfaint o ddarpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer grwpiau penodol o blant sy'n 2 oed, ond cyflwynir y ddarpariaeth hon mewn ffyrdd gwahanol. Mae cynlluniau yn y ddwy wlad hefyd i ehangu'r ddarpariaeth hon, gan gynnwys:

- Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn canolbwyntio ar **gam nesaf ehangu** darpariaeth 12.5 awr yr wythnos Dechrau'n Deg y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed yn y pen draw, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Yn Lloegr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yng **Nghyllideb y Gwanwyn 2023** y byddai'n ehangu gofal plant di-dâl fel y nodir yn y camau isod, gan arwain at 30 awr i rai plant 9 mis oed a throsodd:

**Lloegr yn unig**

**Ebrill 2024**

Caniatáu i rieni sy'n gweithio gael **15 awr** o ofal plant am ddim bob wythnos i **blant dwy oed.**

**Medi 2024**

Ymestyn yr hawl i rieni sy'n gweithio gael **15 awr** o ofal plant am ddim i blant rhwng **naw mis oed a dwy oed.**

**Medi 2025**

Ymestyn yr hawl i rieni sy'n gweithio gael **30 awr** o ofal plant am ddim, fesul cam, i blant rhwng **naw mis oed a thair oed.**

**Medi 2025**

Dylai pob rhiant cym-wys sy'n gweithio fedru cael 30 awr o ofal plant am ddim bob wythnos i blant rhwng **naw mis oed a thair oed.**

# 7. Ymrwymiadau gofal plant Llywodraeth Cymru

Mae **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad** (2021 i 2026) yn 'fersiwn ddiwygiedig o'r Rhaglen Lywodraethu' sy'n ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

Mae'n cynnwys yr ymrwymiadau gofal plant canlynol:

- Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith.
- Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw.

Mae **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2023** yn nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r ymrwymiadau hyn, gan nodi:

> "Ym mis Medi 2022, ehangwyd ein Cynnig Gofal Plant er mwyn cynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant sydd â phlant tair a phedair oed. Drwy hyn, amcangyfrifwyd bod rhyw 3,000 o deuluoedd yn gymwys i gael gofal plant wedi'i ariannu. Ers lansio'r newid hwn, mae 438 o deuluoedd wedi manteisio ar ofal plant wedi'i ariannu. Rydym wedi ehangu mynediad at bob un o'r pedair elfen o'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gan roi budd i dros 3,100 o blant, ac rydym wedi darparu £46m i helpu i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg. Rydym hefyd wedi darparu £70m i wneud gwelliannau ac i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw hanfodol mewn lleoliadau gofal plant, a £3.8m i helpu mwy o ddarparwyr gofal plant i wella eu darpariaeth Gymraeg.

Mae erthygl Ymchwil y Senedd ym mis Medi 2023, '**Cefnogi pobl sy'n 'agored i niwed': beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni?** hefyd yn darparu mwy o wybodaeth.